# MARWNAD

ER COFFADWRIAETH

AM Y DIWEDDAR

# BARCH. WILLIAM HAVARD,

**SWYDD FRYCHEINIOG.**

Yr hwn a ymadawodd a'r byd Awst y 7fed, 1851, yn y flwyddyn 71 o'i oed.

WEDI BOD YN PREGETHU YR EFENGYL YN MHLITH Y TREFNYDDION CALFINAIDD DROS 50 MLYNEDD.

---

GAN WILLIAM WILLIAMS, TALGARTH.

---

"A wyddoch chwi i wr mawr a thywysog syrthiaw heddyw yn Israel,"
"Da was, da, a ffyddlawn."

---

CAERFYRDDIN:

ARGRAFFWYD GAN J. T. JONES, SWYDDFA'R GWRON.

1852.

# MARWNAD, &c.

Beth angau! mor sydyn y gwnaethost,
  Dy orchwyl; ti elyn yr hil,
Ar Havard wr anwyl a hoffus,
  Mor ddistaw mor gyfrwys dy scil;
Paham na buasit mor hynaws,
  A dweyd im' dy fod yn y gell;
Nid aethwn o honi ddim allan,
  Glynaswn er gwaeth ac er gwell.

Buaswn yn craffu yn fanwl,
  Pe buasit yn sibrwd gair im',
Dy fysedd mein llymion wyliaswn,
  Yn dattod ei babell yn llyn;
Er buasit yn ennill y frwydr,
  A thynu ei adail i lawr,
Ond etto glynaswn i wylio,
  Nes drosodd yr aethai yr awr.

Tydi wnest dy eitha, do angau,
  Ti gwympaist i'r llawr y tro hyn;
Tro nesaf fe'th faedda o ddigon,
  Trwy'r gongcwest ar Galfari fryn;
Cai ganddo ef godwm na chodi,
  Cai ergyd yn llwyr hyd y llawr;
Caiff arnat ti lwyr fuddugoliaeth,
  Trwy'r aberth, ar doriad y wawr.

O clywed yr eglwys filwrus,
  Y newydd galarus yn wir;
Mae'r Parch. William Havard yn huno,
  Mae hynny yn sicr a gwir;
Mae heddyw yn seinio yr Anthem,
  Cân Moses a hefyd yr Oen;
Heb ofni temtasiwn a chystudd,
  Na chroesau, na gofid, na phoen.

Yn hwyr Awst y seithfed gorphenodd,
  Ei yrfa i'r talar yn llyn;
Yn mlwyddyn o oed ein Hiachawdwr,
  Un mil ac wyth cant gyda hyn;

Ac un deg a deugain yn chwaneg,
  Wel dyma yr adeg yn llwyr;
Y rhoddodd i fynu ei arfau,
  A hynny tua deg yn yr hwyr.

Fel dyn ac fel Cristion fe'i cerid,
  Dim dichell na brad ynddo ga'd;
O na, yn dra phell oddi wrtho,
  'Nawr dyma'i gymmeriad heb wad;
*Plain man* yn ddiameu oedd Havard,
  Yn teithio tua'r Ganaan yn mla'n;
Ond corph y farwolaeth a'i blinodd,
  Nes gado yr anial yn lan.

Ni welwyd ni chafwyd neb etto,
  O'r holl saint i gyd dan y nef;
A droediodd, ymlwybrodd yn berffaith,
  Perffeithrwydd ei hun; Pwy oedd ef?
Yr Iesu mwyn tirion yn unig,
  A gerddodd, a droediodd bob cam;
Heb wyro, heb fethu, heb golli,
  Gwr perffaith a chwbl ddinam.

Cyfarfu a stormydd a chroesau,
  A phrofedigaethau pur lym;
Y creigiau hyll ddringodd i'w copa,
  Ni ildiodd nes cyrhaedd y bryn;
Er drain ac er d'rysni'r anialwch,
  Seirph tanllyd, ellyllon y fall;
Arhodd ei fwa'n gryf odiaeth,
  Trwy nerth braich Duw Iago'n ddiball.

Ymwelwyd yn foreu, a nodwyd
  Do, gawr y ddu fagddu i ma's;
Gollyngwyd y saeth at ei galon,
  Oedd wedi ei nodi, gan ras;
Fe'i cwympwyd, fe'i lloriwyd yn gwbl,
  Gan flaenor y llu y pryd hyn,
Sef Iesu'r Gwaredwr bendigaid;
  Aeth allan ar gefn march gwyn.

Yn ymyl tref Talgarth bu'r frwydr,
Hen scubor Wernfawr oedd y llawr,
Wel dyma lle rhoddwyd yr ergyd,
Y cwympwyd, y lloriwyd y cawr;
Ni feiddiodd byth mwyach ryfela,
A'r Iesu, gwir flaenor y llu;
Fe daflodd yr arfau'n llwyr heibio,
Fel yna yn hollol y bu.

Tro hwnw adgofiai yn gysson,
Yn gwbl trwy gydol ei oes;
Pan cafodd ei fywyd, achubwyd,
Trwy nerth buddugoliaeth y groes;
Pa ryfedd ei glywed yn traethu,
Yr alwad effeithiol byth mwy;
Can's trwyddi y cafodd ei hunan,
Ei fywyd, trwy rin marwol glwy.

Ac wedi ei alw ef allan,
Pryd hynny oddi wrth gibau'r moch;
'Rhen *filens* byth wedin a'u galwai,
A'u nodai'n ddiledrith a chroch;
'Roedd gorchwyl o'i flaen wedi dorri,
A'i osod gan berchen y gwaith;
Yn hwnw'n ddifefl y gweithiai,
Nes huno a gorphen ei daith.

Y llestr mawr gwir etholedig,
Gan Dduw cyn bod byd ydoedd ef;
Sef gwrthddrych yr alwad pryd hynny,
I gludo trysorau y nef;
Goludoedd yr arfaeth dragwyddol,
Bwriadau hen ammod yr hedd;
I ddynion hil Adda gwympiedig,
Nes syrthiaw o hono i'r bedd.

Y gwr bia'r trysor, 'run ffunud,
Bia dewis y llestr i'w ddwyn;
'R awdurdod ni roddodd i arall,
Mae hono'n llaw'r Iesu glan mwyn;

Ca'dd ganddo ef waith yn y winllan,
  Ymaflodd ef ynddo heb ball;
Ymboenodd, milwriodd yn ffyddlon,
  Yn gysson a hynod ddiwall.

Banerwr cryf ydoedd yn ddiau,
  Yn myddin Duw Ion yr un pryd;
Ymdrechodd deg ymdrech orchestol,
  Milwriaeth y saint yn y byd;
Fe ddaliodd y faner i fynu,
  Fe wisgodd y llurig a'r cledd;
Rho'dd helm iachawdwriaeth am dano,
  Y gwregys a'r scidiau'r un wedd.

Ni fethodd, ni phallodd ryfela,
  Gorchfygodd, ennillodd y dydd;
Ar fyd, cnawd, a phechod, a sattan,
  Ag arfau'r filwriaeth trwy ffydd;
Wel, Cristion mewn cyflawn arfogaeth,
  Oedd Havard, wr nerthol difraw;
Nes trengu a hunaw o hono,
  O'r diwedd dan law brenin braw.

Llafuriodd, cyhoeddodd yn oleu,
  Y gwir, fel yn Iesu y mae;
Ni chelodd un iota o'r cyngor,
  Ond traethodd yr oll yn ddilai;
Tros ddeugain a deg o flynyddau,
  Bu'n gweinidogaethu'n y byd;
Cenhadwr, gweinidog yr Iesu,
  Hedd gennad oedd Havard 'run pryd.

Pregethai'r newyddion per seiniol,
  Hynodol a nefol eu sain;
Cyfiawnder a wnaed gan y meichiau,
  Yr hynod a'r gwyn liain main;
Yr aberth a roddodd yr Iesu,
  Wrth farw ar ben Calfari;
Y cymmod trwy'r iawn a ddaeth ini,
  Y pyngciau oedd ganddo mewn bri.

Yr arfaeth ddoeth gadarn cyn amser,
  A'r cariad tragwyddol draw pell;
Etholiad y blaenor ei hunan,
  Yr ammod ddiymwad oedd well;
A dewis yn ddilys ryw dyrfa,
  Na wyr neb mo'u cyfrif na'u rhi;
I'w cadw a'u dwyn i Gaersalem,
  Trwy ras y Gwaredwr, mewn bri.

'Nol cym'ryd eu hachos gan Iesu,
  Cymmeryd eu nattur 'run modd;
Y dyoddef, y gwaedu a'r marw,
  A wnaeth y Gwaredwr ar go'dd;
Y claddu, a'r codi i fynu,
  O fedd newydd Joseph wnaeth ef;
Yr esgyn, a'r eistedd wnaeth Iesu,
  Uchlaw holl osgordd-lu y nef.

Y codwm a gafwyd yn Eden,
  A'r codiad ddaeth ini 'run wedd;
Y caru a'r cariad tragwyddol,
  Y gwaedu yn ol ammod hedd;
Yr alwad effeithiol yn ddiau,
  Y dilyn a'r para difeth;
Trwy ras y Gwaredwr bendigaid,
  I'r saint ar y llawr yn bob peth.

Dichellion 'run cyfrwys ddilenai,
  A'r gongcwest a gaed ar y pren;
Ar uffern, ellyllon y fagddu,
  Ar groesbren rhwng daear a nen;
Olrheiniai, dilynai yn fanwl,
  Y daith a wnaeth i'r wlad bell;
'R afradlon aufoes-fab heb achos,
  A danfon y newyn i'w gell.

Saeth angau ddanfonwyd i'w galon,
  Ac yntau yn canfod ei wall;
Dyfodiad hwn adref o'r pellder,
  Derbyniad, croesawiad di wall;

Dihatru, y gwisgo, a'r seibiant,
  Y gwledda a'r dawnsio a wna'd;
Y fodrwy, y scidiau, a'r darpar,
  Yn ol gorchymynion y Tad.

Grwgnachrwydd, ynfydrwydd mab hynaf,
  Wrth droeon, gorchwylion fel hyn;
Nid allai mewn un-wedd eu dyoddef,
  Cyndynnai, ymddigiai yn llyn;
Wel dyma oedd swm ei athrawiaeth,
  Ei fyfyr, ei lafur fwyn was;
Nes disgyn o honaw i'r beddrod,
  Pur eiriau athrawiaeth rhad ras.

Yr angel yn 'hedeg fry ydoedd,
  Efengyl dragwyddol yr O'n;
Oedd Havard Brycheiniog, galluog,
  Godidog enneiniog Duw Ion;
Pan fry yr esgynai uwch tyrfa,
  Dihidlai y nefoedd i lawr;
A'r dyrfa yn fonllef ddadseinient,
  Gogoniant trwy'r nefoedd a'r llawr.

Cymhwyswyd, addaswyd, fe'i gwisgwyd
  Mewn arfau, gan frenin y nef;
Nerth corph a nerth meddwl yr unwedd,
  I'r cyhoedd sefyllfa bu ef;
Y clodydd y mawl a'r gogoniant,
  Yn awr a thragwyddol fo'n cri;
Am iddo roi nerth hyd y diwedd,
  I Havard; Cenhadwr mewn bri.

Dros fryniau, trwy bantau y teithiodd,
  I'r gogledd oer draw ac i'r de;
Ca'dd Briste, a Llundain, a Le'rpwl,
  Ei lafur, ei fyfyr, pob lle;
Pregethodd, llafuriodd yn galed,
  I draethu athrawiaeth yr Ion;
Ni ildiodd, ni phallodd nes gorphen,
  Er croesau, cystuddiau, a pho'n.

Er gwlaw, ac er eira a stormydd,
  Pob drycin, os modd yn y byd;
Ai allan i draethu am Iesu
  Gwiw, glandeg, odiaethol ei bryd;
Er cario corph afiach trwmlwythog,
  Blinderus anhwylus is rhod;
Er hyny fe ddaliai ef atti,
  I'r Iesu a'i ras boed y clod.

Wel bellach dos gorphwys medd Iesu,
  Di safi, gwnai etto'n dy ran;
Medd Iesu wrth Havard anwyl-was,
  Cai etto gyfodi'n y man;
Mewn corph mil disgleiriach na'r haul-wen,
  'Run ffunud a minnau, 'run wedd;
Ac yna cai lon'd dy ddymuniad,
  Mewn bywyd tragwyddol o hedd.

Cyn tewi rhaid dweyd gair byr etto,
  Am Edwards, Defynog, wr doeth;
Llafuriodd fel cyd-was flynyddau,
  Un syber a hynod o goeth;
Fe deithiodd er ofnau a thuchan,
  Llefarodd bur eiriau y ne';
Mae yntau ys dyddiau yn gorphwys,
  Yn Iesu mae'n huno'n ddible.

Ffarwel i chwi frodyr am dipin,
  Wel bellach gorphwyswch mewn hedd;
Daw udgorn yn foreu i'ch galw,
  O ddyfnder gwaelodion y bedd;
Nyni gawn gyfarfod tro nesaf,
  Mewn gwedd na ddych'mygwyd is nen,;
Ar ddelw ein hanwyl frawd hynaf,
  Gogoniant fo i'w enw, Amen.

---

ARGRAFFWYD GAN J. T. JONES, SWYDDFA'R GWRON!